# Ysgol Gymraeg Bro Ogwr



Ysgol Gynradd 3-11 oed / Primary School 3-11 years

PROSBECTWS

PROSPECTUS

2024-25

Ffordd y Dywysoges

Bracla

Penybont

CF31 2LN

01656 815580
admin@ygbroogwr.pen-y-bont.cymru
www.ysgolbroogwr.cymru
@ysgolbroogwr

## CROESO'R PENNAETH

## *HEADTEACHER'S WELCOME*

Annwyl Rieni

Mae dewis yr ysgol gywir i'ch plentyn yn hollbwysig. Credwn fod rieni am sicrhau yr addysg orau i'w plant ac am iddynt fod yn hapus a theimlo'n ddiogel. Yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, credwn y gallwn gynnig pob un o'r pethau hyn. Rydym yn ymfalchïo yn yr addysg gytbwys, eang a chynhwysol a ddarparwn ar gyfer ein holl ddisgyblion trwy safonau uchel ac ymroddiad a gwaith caled y staff a'r disgyblion. Yn yr un modd, rydym hefyd yn ymfalchïo yn yr awyrgylch cyfeillgar a diogel o fewn yr ysgol ac fel rhan o'r gymuned. Rydym yn gwerthfawrogi ein disgyblion ac yn credu y dylai eu hamser yn yr ysgol fod yn werthfawr ac yn foddhaus. Wrth ddewis anfon eich plentyn i Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, rwyf yn gwbl hyderus y byddwch wedi gwneud y penderfyniad cywir.

*Dear Parents*

*Choosing the right school for your child is vitally important. We believe parents want the best education for their children ensuring they feel happy, safe and secure. At Ysgol Gymraeg Bro Ogwr we believe we can offer all these things. We pride ourselves on the broad, balanced and inclusive education we provide for all our pupils through the high standards of teaching and learning, commitment and hard work of both staff and pupils. Equally we are also proud of the safe and friendly atmosphere within the school and as part of the community. We value our pupils and we believe that their time in school should be rewarding and fulfilling. By choosing to send your child to Ysgol Gymraeg Bro Ogwr I am fully confident that you will have made the right decision.*

**Mrs Sharon Jayne**

**Pennaeth**

## DATGANIAD GWELEDIGAETH


## *VISION STATEMENT*

Mae'r ysgol hon yn bodoli er mwyn ein plant, gan ei fod yn le pwysig iawn yn eu bywydau, yn le ble byddant yn dysgu ac yn tyfu, yn datblygu eu hunigolrwydd, chwilfrydedd a'u hannibyniaeth. Rydym am sicrhau fod pob plentyn yn teimlo fod gwerth iddo a chariad tuag ato, a'i fod yn teimlo'n ddiogel. Er mwyn cyflawni hyn, mi fyddwn yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys a chyfoethog. Mi fydd hyn yn galluogi'n plant i fod yn ddysgwyr annibynnol, hyderus a galluog sy'n barod i fyw bywyd iach, llawn fel dinasyddion egwyddorol a gwybodus Cymru a'r byd ehangach.

Bydd pob person yn yr ysgol, boed yn blentyn neu'n oedolyn, â rhan arwyddocaol a gwerthfawrogol i'w chwarae. Gweithiwn gyda'n gilydd fel un staff - pob un ohonom yn chwarae ein rhan i wneud yr ysgol yn gymuned fywiog ac ofalgar lle byddwn yn dysgu a chyd-fyw. Rydyn yn cefnogi ein gilydd ac mae ymdrechion pawb yn cael eu cydnabod, gwerthfawrogi a dathlu.

*This school exists for our children as it is an important place in their lives, a place where the children grow and learn and develop their uniqueness, curiosity and independence. We ensure that every child feels valued and loved and knows that he/she feels safe. In order to achieve this we will provide a broad, balanced and rich curriculum. This will ensure that our children will grow into independent, confident and capable learners ready to lead healthy, fulfilling lives as valued, ethical and informed citizens of Wales and the wider world.*

*Every person in the school whether child or adult has a significant and an appreciated role to play. We work together as one whole staff - each and every one of us playing our part to make this school a lively and caring community where we learn and live together. We support each other and everybody's efforts are recognised, appreciated and celebrated.*



## NODAU AC AMCANION

- Sicrhau fod pob disgybl yn ddwyieithog a'i fod/bod yn cael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac i ymfalchio yn hanes a diwylliant Cymreig.
- Darparu cyfleoedd i'r plant ddysgu trwy amrywiaeth o brofiadau o fewn awyrgylch hapus a chartrefol sy'n hyrwyddo dysgu. Anelir at hyrwyddo dysgu pwrpasol fydd yn datblygu dysgwyr creadigol a mentrus.
- Parchu pob plentyn fel unigolyn ac i sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial er mwyn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus, mentrus a galluog.
- Sicrhau mae asesiad yn ganolig i’r dysgwr gyda’r gweithdrefnau yn dangos parhâd a dilyniant yn eu addysg.
- Darparu ymagwedd cynhwysol gydag egwyddorion cytun am les gyda phwyslais ar werthoedd craidd megis gonestrwydd, dyfalbarhad, parch, cwrteisi a goddefgarwch tuag at eraill.
- Sicrhau fod pob disgybl yn ymwybodol o’i bwysigrwydd o fewn yr ysgol, y gymuned a'r amgylchfyd trwy gynnig profiadau eang a chyfoeth er mwyn bod yn aelodau iach a gwerthfawr o’r gymdeithas ac yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus Cymru a’r byd ehangach.
- Magu cyswllt agos rhwng y staff, rhieni a’r gymuned lleol.

## *AIMS AND OBJECTIVES*

- *To ensure that all our children are bilingual and have opportunities to use the Welsh language within a variety of situations and to be proud of our Welsh culture and heritage.*
- *Provide opportunities for our children to learn through a variety of experiences within a happy, caring atmosphere which motivates learning. We aim to promote purposeful learning in order to develop creative and enterprising learners.*
- *Value each child as an individual and ensure they reach their full potential in order to become confident, ambitious and capable learners.*
- *Ensure assessment is learner centred and procedures evidence a learning continuum for each pupil.*
- *To promote an inclusive approach with shared values for wellbeing and an emphasis on core values such as honesty, perseverance, respect, courtesy and tolerance for others.*
- *Ensure that all our children are aware of their important contribution to the life of the school, the community and the environment by providing wide and rich experiences to ensure they become healthy, valued members of society and ethical, informed citizens of Wales and the wider world.*
- *To foster strong and close links between staff, parents and the local community.*

# STAFF YR YSGOL / *SCHOOL STAFF*

Pennaeth / *Headteacher* - Mrs Sharon Jayne

**STAFF ADDYSGU / *TEACHING STAFF***

Mrs Louise Morris (Dirprwy Bennaeth / *Deputy Headteacher)*

Mrs Anne Marie Roderick (Cydlynydd ADY / *ALN Co-ordinator)*

Mr Emrys Roberts (UDA/SLT) Mrs Ruth James (UDA/SLT)

Mrs Delyth Powell (UDA/SLT) Mr Rhodri Evans (UDA/SLT)

Miss Charlotte Carrington (UDA/SLT)

Mrs Julie Shopland Mrs Kerry-Anne Mort

Mrs Talia Thomas Mr Aled James

Miss Elizabeth Evans Mrs Carys Warren (mamolaeth /maternity)

Mrs Helen Edwards / Mrs Hefin Hammett (rhannu sywdd / job share)

Mrs Carys Davies / Miss Ceirios Matthews (rhannu sywdd / job share)

**Goruchwylwyr Cyflenwi / *Cover Supervisors***

Mrs Siân Marshall Mrs Nicola Sandford

Mrs Gemma Garbett-Davies

**Swyddogion Ymyraethau / *Interventions Officers***

Mrs Michele Davies Mrs Julie Edwards

**Swyddog ELSA / *ELSA Officer***

Mrs Rhiannon Senior

**Swyddog Lles a Gofal Bugeiliol / *Wellbeing and Pastoral Care Officer***

Mrs Rhiannon Richards

**Staff Cynorthwyol / *Support Staff***

Mrs Menna Bunston Mrs Sarah Compton

Mrs Melissa Mustoe Miss Heidi Watts

Mrs Lowri Vigus Mrs Angharad Finylas

Miss Carys Elliott

**Swyddogion Gweinyddol /*Administration Officers***

Mrs Lyndsay Martin Miss Charmain Maddern

**Goruwchwylwyr Clnio / *Lunch Supervisors***

Miss Charmain Maddern Mrs Donna Wilson

**Swyddog Trafnidiaeth / *Transport Officer***

Miss Charmain Maddern

**Rheolwr Safle / *Site Supervisor***

Mr Nes Brown

**Cogydd Ysgol / *School Cook***

Mrs Tracy Canton

## IAITH YR YSGOL

## LANGUAGE OF THE SCHOOL

Ysgol gynradd gyfrwng Gymraeg yw Ysgol Bro Ogwr. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol a thrwyddi yr addysgir y disgyblion.

Y Gymraeg yw'r prif gyfrwng dysgu ar draws yr ysgol, ond cyflwynir Saesneg fel pwnc yn unig ar gychwyn yr Adran Iau gyda'r nod o feithrin plant sy'n hyderus yn y ddwy iaith erbyn iddyn nhw gychwyn yn y sector uwchradd.

Ceisiwn sicrhau bod y plant yn ymwybodol bod y Gymraeg yn iaith sy'n cwrdd â gofynion cyfoes a bod ein disgyblion yn ennill hyfedredd yn y ddwy iaith.

*Ysgol Bro Ogwr is a Welsh medium Primary school. The official language of the school is Welsh and the medium through which the children are educated.*

*The Welsh language is the main medium of instruction throughout the school but English as a subject component is introduced in the junior department. It is our aim to ensure that children become fluent in both languages by the time they enter the comprehensive sector.*

*We attempt to ensure that all children are made aware of the fact that the language meets with the needs of contemporary society and has a significant role to play in Welsh society.*


# DECHRAU YSGOL
## *STARTING SCHOOL*

Derbyniwn blant i'r dosbarth Meithrin llawn amser ar ôl cyfnod ymgartrefu. Mae gennym gynllun pontio cartref ysgol sy'n cynnig cyfleodd i blant a rhieni gwrdd a'r staff ac ymweld â'r ysgol. Gofynnwn am eich cymorth i ddatblygu annibyniaeth eich blentyn drwy sicrhau ei f/bod yn medru:-

- ddefnyddio'r tŷ bach yn annibynnol
- olchi a sychu dwylo
- wisgo a dadwisgo
- adnabod ei h/eiddo
- fwyta'n annibynnol

*We admit children into the Nursery class on a full time basis following a settling in period. We have a comprehensive home/school transition procedure which offers opportunities for parents and children to meet with the staff and visit the school. We ask for your help in developing the children's independence by ensuring that they are able to:-*

- *use the toilet independently*
- *wash and dry their hands*
- *dress and undress*
- *recognise their possessions*
- *eat independently*



## DERBYNIADAU / *ADMISSIONS*

Mae'r polisi ar gyfer derbyn plant i'r ysgol yn unol â pholisi'r Awdurdod Addysg Lleol. Cysylltwch ag adran gwasanaethau plantyr Awdurdod Lleol am fanylion pellach. Gall ddarpar rhieni wneud trefniadau i ymweld a'r ysgol drwy gysylltu â'r swyddfa. Ceisiwn drefnu nosweithiau agored i ddarpar rieni ymweld â'r ysgol.

*The school admissions policy complies with that of the Local Education Authority. Contact the LA pupil services department for further details. Should parents wish to visit the school arrangements can be made by contacting the office. We aim to arrange open evenings for parents wishing to visit the school.*

*pupilservices@bridgend.gov.uk*

## PRESENOLDEB / *ATTENDANCE*

Disgwylir presenoldeb prydlon a rheolaidd ar bob adeg. Dylai rieni sicrhau bod eu plant yn cyrraedd yr ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon erbyn 9:00yb. Er mwyn sicrhau dechreuad effeithiol ar gyfer ein disgyblion mae'r disgyblion yn mynd syth i'w dosbarthiadau yn y boreau. Ni ddylai disgyblion ddod ar dir yr ysgol cyn 8:50yb. Gallwn drefnu i ddisgyblion gydag anableddau gyrraedd yr ysgol yn ddiogel drwy drafod gyda staff a'r swyddfa.

Gofynnir i rieni hysbysu`r ysgol drwy alwad ffôn yn rhoi'r rheswm dros absenoldeb y plentyn e.e. salwch, ymweld â'r deintydd.

Mewn achosion lle mae rhieni yn dewis cymryd eu plant allan o'r ysgol yn ystod y tymor ar gyfer gwyliau, fe ddylai rhieni wneud cais i ddisgybl fod yn absennol oherwydd gwyliau drwy lenwi'r ffurlen briodol. Ffurflenni ar gael o swyddfa'r ysgol sydd yn unol â pholisi'r Sir

*Punctuality and regular attendance is expected at all times. Parents should ensure that their children arrive at school promptly and consistently by 9:00am. In order to ensure an efficient start to the school day for our pupils go straight to class. Pupils should not arrive at school before 8:50am. Arrangement for pupils with disabilities to arrive in school safely can be made via discussions with staff and the office.*

*We ask parents to notify the school by phone, giving the reason for the child's absence, for example, illness or dental appointment.*

*Where parents choose to take their children on holiday during term time, Parents should request leave of absence due to holidays by completing the appropriate form. Forms are available from the school office and follow LA policy guidelines.*

# ETHOS, GWERTHOEDD AC YMDDYGIAD

## *ETHOS, VALUES AND BEHAVIOUR*

Yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, ein nod yw datblygu ymdeimlad o hunanddisgyblaeth, cyfrifoldeb a pharch yn y plant. Rydym yn gwobrwyo gwaith ac ymddygiad da gyda sêr, sticeri a thystysgrifau. O bryd i'w gilydd bydd angen trafod ymddygiad plentyn gyda’r rhieni a gofyn am eu cefnogaeth wrth ymdrin â'r mater - rydym am gynnal amgylchfyd sy'n hyrwyddo ymagwedd gadarnhaol tuag at ymddygiad a disgyblaeth drwy weithio mewn partneriaeth â rhieni er mwyn datrys unrhyw broblemau. Rhaid i bob plentyn ddeall bod gan yr ysgol a'r cartref yr un safonau a bod ein disgwyliadau ynglŷn ag ymddygiad yn uchel - sef bod plentyn yn gweithredu'n gyfrifol, yn parchu eraill ac yn aeddfed wrth ymdrin â chyd-ddisgyblion ac oedolion y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol.

*At Ysgol Gymraeg Bro Ogwr we aim to develop a sense of self-discipline, responsibility and mutual respect in our pupils. Stars, stickers and certificates are awarded for good work and behaviour. From time to time it will be necessary to discuss a child’s behaviour with parents and ask for their support in dealing with the matter - we wish to maintain a climate that promotes a positive approach to behaviour by working in partnership with parents in order to solve any problems. Each child must understand that both school and home have the same standards and that our expectations regarding behaviour are high – namely that a child acts responsibly, respects others and is mature in his / her dealings with fellow children and adults within and out of school.*

GWOBRWYO / REWARDS

Wrth ddilyn rheolau ysgol gall ddisgyblion ennill deilen i roi ar y Goeden Glod ac ennill gwobr bob hanner tymor.

*By following school rules, pupils can win a leaf to place on the tree and receive a prize every half term.*


Mae disgyblion yn gweithio gyda’i gilydd i gasglu tocynnau am gadw rheolau. Ar ddiwedd bob tymor fe fydd y flwyddyn fuddugol yn dewis ffordd o ddathlu.


*Pupils work together to collect tokens for keeping the rules. At the end of each term the winning year group chooses their celebration.*











## DIOGELWCH YR YSGOL / *SCHOOL SECURITY*

- Fe fydd yr ysgol ar gau tan 8:50yb ac o'r amser hynny ymlaen tan ddiwedd y dydd fe fydd trefniadau diogelwch yn cael eu gweithredu.
- Fe fydd pob clwyd (heb law am y brif glwyd) a mynedfa ar glo ar ôl 9:00yb.
- Dylai pawb sy'n ymweld â'r ysgol ddod i'r swyddfa wrth y brif fynedfa, hysbysu bwriad yr ymweliad ac arwyddo mewn.
- Lleolir camerau CCTV sy'n ein galluogi ni i fedru arolygu gwahanol ardaloedd yr ysgol.
- Disgwylir i ymwelwyr a staff sicrhau bod y drysau allanol ar glo / ar gau ar bob adeg o oriau ysgol.

- *The school will be closed until 8:50am, from which time security arrangements will be in force for admission.*
- *All gates (except main gate) and entrances will be closed at 9:00am.*
- *All parents/visitors to the school must report to the main reception area, state the purpose of the visit and sign in.*
- *CCTV cameras allow us to view all areas of the school.*
- *All visitors and staff have a duty of care to ensure that external doors are locked / closed during school hours.*


## DIOGELU / *SAFEGUARDING*

Mae Ysgol Bro Ogwr wedi ymrwymo i ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc ac mae'n disgwyl i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn. Yr athrawon a'r llywodraethwraig enwebedig sy'n gyfrifol yw:

Mrs S Jayne (Pennaeth ) Mrs L Morris (Dirprwy) Mrs A M Roderick (CADY) Mrs N Dart (Cadeirydd)

*Ysgol Bro Ogwr is committed to safeguarding and promoting the welfare of children and young people and expects all staff and volunteers to share this commitments. The nominated teachers and governor who have safeguarding responsibility are:*

*Mrs S Jayne (Headteacher ) Mrs L Morris (Deputy) Mrs A M Roderick (ALNCo) Mrs N Dart (Chair)*



# CWRICWLWM / *CURRICULUM*

Dyluniwyd y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer dysgwyr 3 i 16 oed.
Rhannwyd mewn i Gamau Cynnydd fel isod yn y Sector Cynradd:

Cam Cynnydd 1: Meithrin a Derbyn

Cam Cynnydd 2: Blynyddoedd 1, 2 a3

Cam Cynnydd 3: Blynyddoedd 4, 5 a 6

*The Curriculum for Wales is designed for learners from age 3 to 16.*
*It is split into Progress Steps as below in the Primary Sector:*

*Progress Step 1: Nursery and Reception*

*Progress Step 2: Years 1, 2 and 3*

*Progress Step 3: Years 4, 5 and 6*

Gweler pamffledi gwybodaeth i rieni / oflawyr a disgyblion ar wefan yr ysgol. *Please see information pamphlets for parents / carers and pupils on the school website.*

Mae'r Cwricwlwm yn cynnwys chwe **Maes Dysgu a Phrofiad:**

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mathemateg a Rhifedd

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Iechyd a Lles

Dyniaethau

Y Celfyddydau Mynegiannol

*The curriculum includes six* ***Areas of Learning and Experience:***

*Languages, Literacy and Communication*

*Mathematics and Numeracy*

*Science and Technology*

*Health and Well-being*

*Humanities*

*Expressive Arts*

Ar draws yr ysgol mae sgiliau dysgu, megis llythrennedd, rhifedd, meddwl a llythrennedd digidol yn cael eu datblygu drwy ac ar draws y cwricwlwm. Ceisiwn ddatblygu cwricwlwm sy'n creu cyfle i'n plant esgor ar:

Brofiadau uniongyrchol
Amrywiaeth o feysydd dysgu/pynciau
Brofiadau addas a pherthnasol
Ddarpariaeth gwahaniaethol
Y Cwricwlwm Cymreig

Amrywiaeth o ddulliau a chyfleoedd mynegi
Ddull dysgu sy'n seiliedig ar themau traws-gwricwlaidd
Broses addysgu sy'n cynnig dilyniant ac yn gydlynus
Strwythur dysgu sydd wedi'i gynllunio'n ofalus a thrylwyr
Gyfleoedd i blant weithio mewn grŵp, parau, dosbarth cyfan ac unigolion

*Across the school the essential skills of literacy, numeracy, thinking and digital literacy are developed across the curriculum. We strive to develop a curriculum which will provide the children with the following:*

*Direct experiences*
*A variety of teaching strategies*
*Relevant and suitable experiences*
*Differentiated teaching approaches*
*Welsh Culture*

*A variety of modes through which children can express themselves*
*A learning approach which is based on cross-curricular themes*
*A learning process which is coherent and progressive*
*A learning structure which has been thoroughly and carefully planned*
*Opportunities for children to work in groups, pairs, whole class and as individuals*

The curriculum also covers:

- human rights
- diversity and respecting differences
- experiences and skills for careers and the workplace
- learning about local, national and international contexts
- developmentally appropriate relationships education

Mae'r cwricwlwm hefyd yn ymdrin â:

- hawliau dynol
- amrywiaeth a pharchu gwahaniaethau
- profiadau a sgiliau ar gyfer gyrfaoedd a'r gweithle
- dysgu am gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- addysg cydberthnasoedd sy'n briodol o ran datblygiad y plentyn

Gweler Cyflwyniad Cwriwcwlwm ein hysgol ar wefan yr ysgol.

*Please see our school Curriculum Presentation on the school website.*

# CWRICWLWM / *CURRICULUM*

## ADDYSG GREFYDDOL
## *RELIGIOUS EDUCATION*

Mae Addysg Grefyddol yn elfen orfodol tu mewn i'r cwrs addysg ac yn cael ei ddysgu yn unol â pholisi'r ysgol, Awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru. Cymer disgyblion ran mewn gweithred ddyddiol o addoliad. Christnogaeth yw cyfrwng ein haddoliad yn bennaf.

Mae gwasanaethau dosbarth a gwersi Addysg Grefyddol yn ymdrin a chrefyddau eraill yn ogystal a Christnogaeth. Anogir disgyblion i barchu a gwerthfawrogi crefyddau pob diwylliant er mwyn datblygu yn aelodau aeddfed o gymdeithas.

Gall blant gael ei heithrio o’r addoli dyddiol ac Addysg Grefyddol os dymuna rhieni.

*Religious Education is a compulsory element of the education course and it is taught according to the school, Local Authority and Welsh Government policy. Pupils take part in a daily act of worship which is mainly Christian by nature.*

*Class assemblies and Religious Education lessons discuss other religions in addition to Christianity. Children are encouraged to respect and appreciate the religions of all cultures in order that they may develop into mature members of society respectful of others.*

*Parents have the right to withdraw children from daily worship and religious education if requested.*

## ADDYSG CYD-BERTHYNAS A RHYWIOLDEB
## *RELATIONSHIPS AND SEXUAL EDUCATION*

Rydym yn addysgu addysg cyd-berthnasau a rhywioldeb drwy wahanol agweddau o’r cwricwlwm - Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), Amser Cylch, Gwyddoniaeth ac Addysg Gorfforol. Addysgir yng nghyd destun fframwaith amcanion a gwerthoedd yr ysgol. Ymdrinir â’r pwnc ar bob adeg ar lefel oed addas sy’n canolbwyntio ar les, perthnasau, teuluoedd a ffrindiau gyda sensitifrwydd ac mewn modd broffesiynol,

Dysgir fel pwnc hefyd ar wahan i blant blwyddyn 5 a 6 drwy wahodd nyrs yr ysgol i ddod i drafod ac ymdrin â’r pwnc gyda’r plant.

*Relationship and Sexual education is taught through different aspects of the curriculum - Personal, Social and Health Education (PSHE), Circle Time, Science and Physical Education. It is taught in the context of the school’s aims and values framework. At all times the subject is dealt with at an age appropriate level concentrating on well-being, relationships, family and friends in a sensitive and professional manner.*

*It is also taught as a separate subject to Year 5 and 6 pupils through inviting the school nurse to the school to talk and discuss the subject with the children.*

## Gweithgareddau Allgyrsiol
## Extra-curricular Activities

Anelir at ddarparu cyfleoedd ychwanegol i’r plant tu fewn a thu allan i oriau ysgol trwy glybiau amrywiol, yn dibynnu ar oed. Fel Ysgol Gymraeg anogir y plant hefyd i gymryd rhan yng ngweithgareddau’r Urdd yn ystod y flwyddyn.

*We aim to provide as many extra-curricular activities within and outside school hours through a variety of clubs, age dependent. As a Welsh medium school we also encourage the children to participate in Urdd activities throughout the year.*

## YSGOL IACH / *HEALTHY SCHOOL*

Mae’r ysgol yn annog bwyta ac yfed yn iach ayn ddyddiol. Gofynnir i ddisgyblion ddod â ffrwyth neu lysiau i’w bwyta amser egwyl. Anogir disgyblion sy’n dod a phecyn bwyd i drafod opsiynau iach gyda’u rhieni. Anelir at ddarparu cymaint o brofiadau ag y gellir ym myd chwaraeon i’r plant. Rhoddir pwyslais ar gadw’n heini yn unol â pholisi’r Awdurdod Lleol ar gyfer Ysgolion Iach.

*The school encourages eating and drinking healthily on a daily basis. We ask that pupils bring fruit or vegetables to eat during break. Pupils who bring lunch boxes are encouraged to discuss healthy options with their parents. We aim to provide as many sporting opportunities as possible for the pupils. An emphasis is placed on health and fitness according to the Local Authority Policy for Healthy Schools.*

# ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## *ADDITIONAL LEARNING NEEDS*

Darparwn gwricwlwm eang a chytbwys sy'n wahaniaethol ac yn briodol i anghenion pob plentyn. Mae'r ysgol yn darparu arbenigedd o fewn yr ysgol i gwrdd ag anghenion addysgiadol arbennig disgyblion. Fel ysgol sicrhewn bod plant ag anghenion addysgiadol ychwanegol yn cael eu hintegreiddio'n llwyr i fywyd yr ysgol, a'u bod yn cael yr un cyfleoedd a phob plentyn arall, ond fe ryddhawyd ar gyfer cefnogaeth mewn grwp neu fel unigolyn lle'n briodol. Mae'r broses yn cael eu monitro'n agos ac yn rheolaidd gan gydlynydd ADY yr ysgol.

Anelwn at ddarparu ar gyfer plant ag anghenion addysgol ychwanegol drwy geisio eu hadnabod yn gynnar, rhoi cefnogaeth a sicrhau adnoddau addas lle'n bosibl. Bwriadwn gynnwys y rhieni mor gynnar â phosibl yn addysg y plentyn a chroesawn eu cefnogaeth er mwyn sicrhau datblygiad a chynnydd.

*We provide a broad and balanced curriculum which is differentiated and is suitable for the needs of each child. We provide expertise from within the school to meet the additional educational needs of our pupils. We ensure that children with additional educational needs are fully integrated to school life, and that they are given the same opportunities as every other child, but will be withdrawn for support as part of a group or individually when required. The ALN co-ordinator monitors this whole process closely and regularly.*

*We aim to recognise children with additional educational needs as early as possible and give support with suitable resources. We aim to involve parents as early as possible in the education of the child and welcome their support to ensure development and progress.*

## *PLANT MEWN GOFAL*
## *LOOKED AFTER CHILDREN*

*Yr aelod o staff sydd â chyfrifoldeb dros gefnogi ac hybu cyrhaeddiad addysgiadol Plant Mewn Gofal yw Mrs S Jayne (Pennaeth).*

*The member of staff responsible for supporting and promoting the education achievement of looked after children is Mrs S Jayne (Headteacher).*

## CYDRADDOLDEB / *EQUALITY*

Yn Ysgol Bro Ogwr rydyn yn ymrwymedig i sicrhau addysg gyfartal a chyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion, staff, rhieni a gofalwyr sy'n cael gwasanaethau gan yr ysgol. Rydym yn amcanu at ddatblygu diwylliant o gynhwysiant ac amrywiaeth lle mae pawb sy'n gysylltiedig a'r ysgol yn falch o'u hunaniaeth ac yn gallu cyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol.

*At Ysgol Bro Ogwr we are committed to ensuring equality of education and opportunity for all pupils, staff, parents and carers receiving services from the school. We aim to develop a culture of inclusion and diversity in which all those connected to the school feel proud of their identity and able to participate fully in school life.*

## ANABLEDD / *DISABILITY*

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau mynediad llawn i'r adeilad ac i'r cwricwlwm i'w disgyblion, beth bynnag yw eu cred, hil, gallu, rhyw neu anghenion addysgol ychwanegol.

*The school is duty bound to ensure that there is access to the building and to the curriculum whatever the beliefs, ability, race or additional educational needs of the pupils.*

## GWISG YSGOL
## *SCHOOL UNIFORM*

Anogwn bob plentyn i wisgo'n daclus mewn gwisg ysgol lawn.

O safbwynt iechyd a diogelwch ni ddylai'r plant wisgo gemwaith yn ystod oriau ysgol, heblaw am 'studs' neu oriawr (nid rhai digidol sy'n gallu danfon a derbyn negeseuon a ffotograffau).

Mae'n hanfodol bwysig i rieni osod enw'r plentyn yn glir ar ddillad ysgol. Os digwydd i blentyn golli dilledyn cedwir y dillad coll naill ochr am gyfnod, ac anogir y rhieni i holi yn y brif swyddfa.

*Children are encouraged to dress neatly in full school uniform.*

*In order to ensure their health and safety, pupils should not wear jewellery during the school day, apart from 'studs' or watches (not digital ones which are able to send / receive messages or photographs).*

*We urge parents to place name labels on school clothing. If a child loses an item of clothing, parents are able to enquire at the school reception. Lost property is kept for a period of time.*

**Gwisg Ysgol / *School Uniform***

Crys polo coch / *red polo shirt*

Siwmper neu gardigan gwyrdd / *green jumper or cardigan*

Trowsus / siorts hir / sgert llwyd / *grey trousers / long shorts / skirt*

Ffrog haf gwyrdd neu coch / *green or red summer dress*

Esgidiau neu treiners du / *black shoes or trainers*

**Gwisg Ymarfer Corff / *PE Kit***

Crys T gwyn / *white T shirt*

Siorts neu joggers tywyll / *dark shorts or joggers*

Esgidiau ymarfer corff addas / *appropriate*

***Nid oes angen logo'r Ysgol ar y gwisg.***
***School logo is not required on the uniform.***

***Darparir gwisg ail law am ddim a leolir ger Dderbynfa'r Ysgol.***
***We have free pre-worn uniform which is located at the school's Reception.***

## CINIO YSGOL A BRECHDANAU
## *SCHOOL LUNCH AND SANDWICHES*

Ymgesglir y plant yn neuadd yr ysgol i fwyta cinio ysgol. Yn ystod amser cinio mae cynorthwywyr yn gofalu am y plant. Pan fydd y tywydd yn wael cedwir y plant dan oruchwyliaeth yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer eu amser egwyl.

Yr Awdurdod Lleol sydd yn darparu'r fwydlen, ar gylch o 3 wythnos. Gweler y fwydlen ar wefan BCBC.

*The children assemble in the hall to eat their lunch or sandwiches. During the lunch period supervisors take care of the children. During inclement weather, children remain in their classrooms under supervision for their break period.*

*The Local Authority provides the menu, on a 3 week rotation. Menu may be found on BCBC website.*

## SALWCH A MEDDYGINIAETH
## *ILLNESS AND MEDICATION*

Os bydd plentyn yn dost neu wedi cael niwed i'r pen yn yr ysgol yna fe fyddwn yn cysylltu â'r rhieni er mwyn gwneud trefniadau iddynt ddod i'w g/chasglu o'r ysgol.
Os oes angen darparu meddigyniaeth i blentyn yn yr ysgol rhaid llenwi'r ffurflen o'r swyddfa. Moddion sydd ar brescripsiwn yn unig rydym yn gallu darparu.
Oes mae angen pwmp asthma ar blentyn gofynnwn am bwmp i'w gadw yn yr ysgol.
Mae yma ymarferwyr Cymorth Cyntaf yma i ddelio gyda niweidiau neu salwch sy'n digwydd yn yr ysgol.

*If a child is ill or a bump to the head has occurred then we will contact parents to arrange for him/her to be collected from school.*
*If medication needs to be administered to a child in school then a form must be completed. These are available from the school office. Only Prescribed medicine can be administered.*
*If an asthma pump is required then we ask if one can remain in school.*
*We have trained first aid practitioners on hand to deal with any injuries or illness which occur in school.*

## HYLIF HAUL *SUN SCREEN*

Rydyn ni'n gofresrtedig â 'Sunsafe Schools' sy'n hybu addysgu disgyblion, staff a rhieni am beryglon yr haul. Rydyn ni'n annog y disgyblion i wisgo het, yfed dŵr a thaenu hylif haul, dan arolygaeth oedolyn, pan fo pelydrau'r haul yn gryf.

*We are registered with 'Sun Safe Schools' which promotes and educates pupils, staff and parents in regards to the dangers of the sun. We encourage pupils to wear hats, drink water and apply sunscreen, under adult supervision, when the UV rays are high.*

## CYSYLLTIADAU RHWNG Y CARTREF A'R YSGOL

## *HOME SCHOOL LIAISON*

Mae cysylltiadau da rhwng rhieni'r ysgol a'r ysgol ei hun. Gwahoddir rhieni i'r ysgol ar dddechrau'r flwyddyn ysgol ar gyfer Noson Agored ym mis Medi. Yna cynhelir dwy noson rieni rhithiol yn yr Hydref a Gwanwyn i drafod cynnydd y plant gyda'r athrawon. Ar ddiwedd y flwyddyn rhoddir adroddiad ysgrifenedig llawn i'r rhieni. Gwahoddir y rhieni, gofalwyr a pherthnasau i gymaint o achlysuron yn yr ysgol ag sy'n bosib e.e. cyngherddau, dathliadau neu i weld gwaith y plant.

*There are good links between the parents and school. Parents are invited to the school at the start of the year for an Open Evening in September. Then, two virtual parents' evenings are held in the Autumn and Spring term to discuss the child's progress with the class teachers. At the end of the academic year parents receive a full written report. Parents, carers and relatives are warmly invited to many of the events organised by the school e.g. concerts, celebrations or to see the pupils' work.*

### <u>Cytundeb Cartref – Ysgol / *Home – School Agreement*</u>

Mae gan yr ysgol "Gytundeb Cartref – Ysgol". Gofynnwn i'r disgyblion a'u rhieni/gwarcheidwaid i arwyddo'r cytundeb hwn ym mis Medi ar ddechrau'r flwyddyn ysgol.

*The school has a "Home – School Agreement". We ask that the pupils and their parents/guardians sign this agreement in September at the beginning of the school year.*

### <u>Gwaith Cartref / *Homework*</u>

Darperir gwaith cartref fel estyniad o waith ysgol y plentyn. Anogir rhieni i gefnogi datblygiad darllen trwy wrando ar a darllen gyda'ch plant yn rheolaidd. Gofynnwn am eich cydweithrediad a chymorth i gefnogi addysg eich plentyn.

*Homework is provided as an extension of the child's class work. We ask parents to support your child's reading development by listening and reading with your child on a regular basis. We kindly ask for your co-operation and help in supporting your child's education.*

## PONTIO / *TRANSITION*

Yn ystod eu hamser ym Mlwyddyn 5 a 6 y mae'r disgyblion yn dechrau paratoi ar gyfer trosglwyddo i'r Ysgol Gyfun. Maent yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Llangynwyd, Maesteg. Mae'r partneriaeth rhwng Ysgol Llangynwyd ac Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn un agos. Trefnir sawl ymweliad i'r plant ag Ysgol Llangynwyd er mwyn iddynt fedru dechrau ymgartrefu cyn gynted ag y bo modd.


Daw Pennaeth Blwyddyn 7 a chyn-ddisgyblion i gynnal cyfarfod â phlant Blwyddyn 6. Fe ddaw aelodau staff Ysgol Llangynwyd i drafod anghenion plant unigol cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol gyfun.

Mae'r Clwstwr hefyd yn trefnu ymweliadau preswyl i flynyddoedd 5 a 6 sy'n cefnogi'r gwaith Pontio.

*During their time in Years 5 and 6 the pupils will begin to prepare for transition to the Comprehensive school. They transfer to Ysgol Gyfun Llangynwyd, Maesteg. The partnership between Ysgol Llangynwyd and Ysgol Gymraeg Bro Ogwr is close. Many transition visits are organised in order that the pupils become accustomed to the school as soon as possible.*

*The Head of Year 7 and past pupils hold meetings with our Year 6 pupils. Staff from Llangynwyd visit us to discuss individual children's needs before they transfer to the Comprehensive.*

*The Cluster also organises residential visits for years 5 and 6 which supports the Transition work.*



## Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

## *Parent Teacher Association*

Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ‘Ffrindiau Bro Ogwr’ weithgar sy'n gefnogol iawn i'r ysgol. Anogir pob teulu i ymwneud â gweithgareddau'r Gymdeithas. Trefnir cyfarfodydd a digwyddiadau yn gyson.

*The school has an extremely supportive and active PTA ‘Ffrindiau Bro Ogwr’ and we encourage involvement in activities organised under the PTA. Meetings and events are arranged on a regular basis.*

## TRAFNIDIAETH

## *TRANSPORT*

Mae’r ysgol yn cydweithio’n agos gyda’r Adran Drafnidiaeth. Yr Awdurdod s’yn darparu trafnidiaeth yr ysgol. Disgwylir i’r plant cydymffurfio gyda Côd Ymddygiad wrth Deithio y Sir.


Am ragor o fanylion ynglŷn â thrafnidiaeth cysylltwch â’r Adran Drafnidiaeth.

*The school works closely with the Transport Department. The Authority provides the school transport. Pupils are expected to comply with the County Travel Behaviour Code.*

*For any queries regarding school transport please contact the Transport Department.*

*01656 642653 / 54*

*schooltransport@bridgend.gov.uk*



## LLYWODRAETHWYR YR YSGOL

## *SCHOOL GOVERNORS*

**CADEIRYDD / *CHAIR***

***Mrs N Dart***

**IS-GADEIRYDD / *VICE CHAIR***

***Mrs H Lowcock-James***

**CLERC / CLERK**

***Ms S Delaney***

**schoolgovernancesolutions@gmail.com**

**Awdurdod Lleol / *Local Authority***

Mrs H Lowcock-James

Mrs R Powell

Mr B Morgan

Mrs C Johnson

**Cymuned / *Community***

Cyng/Cllr K Hughes

Mrs N Dart

Mr M Stephens

Mrs E Martin

Mr J Slade

**Rhiant / *Parent***

Mr C Stephens

Mrs H Watkins

Mrs T Davies

Mrs C Davies

**Staff Cynorthwyol / *Support Staff***

Mrs Rhiannon Senior

**Staff Addysgu / *Teaching Staff***

Miss C Carrington

Miss Elizabeth Evans

**Pennaeth / *Headteacher***

Mrs S Jayne

Gellir danfon unrhyw ohebiaeth ar gyfer y Llywodraethwyr i’r ysgol

*Any correspondence to Governors may be sent to the school.*

## CWYNION / *COMPLAINTS*

Credwn fod Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn cynnig addysg o safon uchel i'n holl blant, a bod y Pennaeth ac aelodau'r staff yn gweithio'n galed iawn i sicrhau perthynas gadarnhaol gyda phob rhiant. Fodd bynnag, mae'n ddyletswydd ar yr ysgol i osod canllawiau yn eu lle rhag ofn bod gan rieni gwynion.

Os oes yna rieni sy'n anhapus ynglŷn â'r addysg y mae eu plentyn yn ei dderbyn, neu â chonsyrn ynglŷn â mater sy'n ymwneud â'r ysgol, fe ddylent yn y lle cyntaf wneud apwyntiad i drafod y mater gyda'r Pennaeth. Os nad oes modd i ni gynnig ateb boddhaol o fewn yr ysgol, gofynnir i chi ddilyn y camau swyddogol yn unol a Pholisi Cwynion yr ysgol a sir.

Mae'r Polisi Cwynion ar gael ar y wefan ac o swyddfa'r ysgol.

*We believe that Ysgol Gymraeg Bro Ogwr provides a good education for all our children, and that the Headteacher and members of staff work very hard to build positive relationships with all parents. However, the school is obliged to have procedures in place in case there are complaints by parents.*

*If any parent is unhappy with the education that their child is receiving, or has any concern relating to the school, they should in the first instance make an appointment to discuss the matter with the Headteacher. If you are dissatisfied with the outcome of the discussion with school, we kindly ask that you follow the procedures in line with the school and county Complaints Policy.*

*The Complaints Policy is available on the school website and from the school office.*

### CYFRANIADAU ARIANNOL / POLISI CODI TÂL

### *CHARGES AND REMISSIONS POLICY*

Yn rheoliadd yn ystod y flwyddyn fe drefnir gweithgareddau / teithiau addysgiadol i atgyfnerthu'r gwaith dosbarth. Gofynnwn i rieni gyfrannu'n wirfoddol i gefnogi'r gweithgareddau hyn.

*Throughout the year educational trips and activities are arranged to support the work in class. We therefore request a voluntary contribution from parents to support these activities.*

**DYDDIADAU TYMOR A GWYLIAU - PEN-Y-BONT AR OGWR**

***TERM AND HOLIDAY DATES - BRIDGEND COUNTY***

***2024 - 2025***

| **Term** | **Term Begins** | **Mid term holiday Begins** | **Mid term holiday Ends** | **Term Ends** |
|---|---|---|---|---|
| Autumn Term 2024 | Mon 2 Sept 2024 | Monday 28 Oct 2024 | Friday 1 Nov 2024 | Friday 20 Dec 2024 |
| Spring Term 2025 | Mon 6 Jan 2025 | Monday 24 Feb 2025 | Friday 28 Feb 2025 | Friday 11 April 2025 |
| Summer Term 2025 | Monday 28 April 2025 | Monday 26 May 2025 | Friday 30 May 2025 | Monday 21 July 2025 |

**Diwrnodau HMS / *INSET Days***

**02.09.24** **03.09.24**

**27.01.25** **11.04.25**

**13.06.25** **21.07.25**

Am ragor o fanylion ewch i wefan yr ysgol
*For further information visit the school website*
**www.ysgolbroogwr.cymru**

Dilynwch ni ar 'X'
*Follow us on 'X'*
**@ysgolbroogwr**

*E-bost Ysgol / School e-mail*
**admin@ygbroogwr.pen-y-bont.cymru**

*Facebook*
**Ysgol Gymraeg Bro Ogwr Official Page**